# SWYDD DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD:** | Rheolwr Fframwaith Rhanbarthol |
| **ATEBOL I:** | Pennaeth Fframweithiau |
| **YN GYFRIFOL AM:** | D/B |
| **ADRAN:** | Adnoddau |
| **CYFLOG (£):** | G13 |

**PRIF BWRPAS Y SWYDD**

Yn ddiweddar, mae Adra wedi ffurfio Fframwaith Deunyddiau ar draws Cymru, Ffrâm24 ar gyfer cyflenwi deunyddiau adeiladu i'r sector cyhoeddus ym mhob rhan o Gymru, mae'r ffframwaith newydd wedi'i gymeradwyo a'i gefnogi yn llawn gan Lywodraeth Cymru a bydd yn cymryd lle'r ffframwaith sydd ganddyn nhw ar waith ar hyn o bryd. Bydd y Fframwaith yn rhedeg ar y cyd gyda'r ffframwaith hynod o lwyddiannus presennol ar gyfer darparu datrysiad Gwasanaeth wedi'i Reoli ar gyfer cyflenwi deunyddiau adeiladu a chynhyrchion cysylltiedig y mae Adra yn eu rheoli. Fel Rheolwr Fframwaith Rhanbarthol, byddwch yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Fframweithiau.

Mae'r ffframweithiau yn agored i holl awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus ar hyd a lled Cymru gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Darparwyr Tai Cymdeithasol, Gwasanaethau Brys, Addysg led led Cymru.

Mae gan y Fframwaith botensial aruthrol i dyfu a chynnig buddiannau ac arbedion effeithlonrwydd sylweddol drwy gydweithio gyda llawer o gyflenwyr, aelodau presennol a newydd. Byddwch yn rhan hanfodol o hyn, yn tynnu sylw at feysydd ar gyfer gwella ac arbedion effeithlonrwydd ar draws y Fframwaith ac yn adnabod cyfleoedd newydd ar gyfer twf. Bydd y perthnasau y byddwch chi'n eu meithrin rhwng Ffrâm24 ac aelodau eraill (Cymdeithasau Tai a chyrff sector cyhoeddus eraill) yn creu llwyfan ar gyfer partneriaethau'r dyfodol.

**Beth fyddwch chi'n ei wneud**

Byddwch yn llysgennad ar gyfer y ffframwaith ar draws Cymru, yn canolbwyntio yn bennaf ar ranbarth de Cymru. Yn croesawu ei werthoedd ac uchelgeisiau, yn gweithio gydag ac yn gyfrifol am sicrhau, bod yr holl aelodau yn manteisio i'r eithaf o'r ffframwaith.

Cynhyrchu ac adolygu data masnachol a pherfformiad ar gyfer aelodau'r Fframwaith o dan eich gofal.

Byddwch yn cynorthwyo i sicrhau bod y fframwaith yn ariannol hyfyw drwy gyflawni twf a fydd yn dod ag incwm ychwanegol, newydd i Adra ar ffurf ffi fframwaith.

Byddwch yn cynrychioli'r fframwaith mewn digwyddiadau amrywiol a gweithdai ym mhob cwr o Gymru.

Yn gweithio o dan gyfarwyddyd y  Pennaeth Fframweithiau i weithredu a chyflenwi’r cynllun tymor hir ar gyfer y fframwaith.

Byddwch yn cydweithio o fewn y fframwaith, yn meithrin perthnasau cadarnhaol, yn canolbwyntio ar ychwanegu gwerth a chyflenwi arbedion effeithiolrwydd.

Byddwch yn croesawu ac yn cyfrannu at uchelgais twf y fframweithiau drwy ddatblygu perthnasau gwaith newydd.

Byddwch yn cynorthwyo neu'n arwain yn ôl yr angen ar weithredu unrhyw gontractau newydd yn ôl y gofyn o dan y fframwaith.

Byddwch yn uchafu gwerth cymdeithasol y fframwaith ar y cyd gyda Chyflenwyr ac Aelodau’r fframwaith.

Byddwch yn gweithio ochr yn ochr gyda'r tîm cyfathrebu o fewn Adra i gefnogi cynlluniau cyfathrebu, gwneud y defnydd gorau o'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth a phroffil o'r Fframwaith.

**<u>Beth yr ydym yn chwilio amdano</u>**

Rydym yn chwilio am  Rheolwr Fframwaith Rhanbarthol i ymuno â’n tîm uchelgeisiol i sicrhau bod y fframwaith yn cyflenwi ar yr uchelgais ac yn rhoi buddion a chyfleoedd sylweddol.

Byddwch yn gweithio i gynyddu ein henw da fel cwmni tai arloesol lle mae’r gymuned yn bwysig i ni. Bydd gennych chi galon gymunedol a meddwl masnachol craff.

I fod yn llwyddiannus, byddwch yn rhagori wrth gyflenwi gwasanaethau effeithiol ac arloesol ac yn meddu ar sgiliau datblygu busnes ardderchog.

Bydd gennych y gallu naturiol i ddatblygu perthnasau gwaith newydd sydd yn y pendraw yn arwain at gyfleoedd newydd ar gyfer y fframwaith.

Byddwch yn unigolyn hyderus a threfnus gyda sgiliau cyfathrebu da i fanteisio ar gyfleoedd.

Gyda phrofiad perthnasol byddwch gyda hanes wedi’i brofi o weithio a chyflenwi canlyniadau mewn amgylchedd tebyg.

Bydd angen dull ymgynghorol 360 sy'n cefnogi setiau sgiliau amrywiol a gweithio ar brosiectau o'r crud i'r bedd.

Bydd gennych allu cadarn i weithio ar eich pen eich hun gyda lefel uchel o symbyliad, cymhelliant, a chadernid.

Mae’r rôl yn cynnwys de Cymru, felly mae parodrwydd i deithio yn angenrheidiol. Mae ein prif swyddfa wedi'i lleoli ym Mangor a bydd angen i chi ymweld â'r swyddfa ar adegau penodol.

**CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL**

**Perfformiad**

- Gweithredu fel cyswllt allweddol o ran perfformiad a rheolaeth o’r fframwaith o fewn eich rhanbarth, mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen, ymateb i bob cais, a datrys unrhyw faterion a allai effeithio ar berfformiad cyffredinol y fframwaith.
- Cyflenwi gwasanaeth sy’n dangos lefelau uchel o berfformiad, cost effeithiol ac yn rhoi gwerth i aelodau.
- Ymgymryd gyda gwiriadau iechyd blynyddol a chynigion ar sail gwerth ar gyfer aelodau’r fframwaith, tynnu sylw at gyfleoedd i wella ac arbedion effeithlonrwydd.
- Rheoli a monitro perfformiad cyflenwyr fframwaith a chefnogi mewn dull cydweithredol prosesau ar gyfer unrhyw welliannau posibl.
- Cynhyrchu adroddiadau clir a chryno i’r Pennaeth Fframweithiau.
- Ymdrechu bob amser i wella boddhad a chodi safonau
- Sicrhau bod rhwymedigaethau contractiol y fframwaith yn cael eu diwallu
- Dangos a Gweithredu rhagoriaeth o ran Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a’r Amgylchedd (IDAA).

**Gweithio mewn partneriaeth**

- Trefnu a chyflwyno gweithdai peirianneg gwerth blynyddol i aelodau'r fframwaith yn eich rhanbarth.
- Negodi telerau ar unrhyw bryniant newydd ar raddfa fawr ar ran aelodau'r fframwaith.
- Cyfrannu at osod targedau ac arwain ar ragweld a monitro gwariant y fframwaith.
- Tynnu sylw a gweithio ag aelodau’r fframwaith i ganfod meysydd ar gyfer gwella ynghyd ag arbedion effeithlonrwydd.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda chynrychiolwyr perthnasol cyflenwyr sydd wedi'u penodi, yn meithrin perthnasau gwaith rhagorol yn canolbwyntio ar werthoedd y fframwaith.
- Dod i ddeall a gwerthfawrogi aelodau’r fframwaith a modelau busnes cyflenwyr ar lefel weithredol, yn sicrhau bod y model cyflenwi gwasanaeth yn addas at y diben.
- Sicrhau bod y cymalau Gwerth Cymdeithasol yn cael eu gwireddu ac yn arloesol, a lle’n bosib, mabwysiadu dull cydweithredol o ran cyflenwi.

**Twf a Datblygu**

- Denu a sicrhau aelodau newydd i'r fframwaith ac felly cyfrannu at ddiogelu potensial llawn y fframwaith o dan gyfarwyddyd y Pennaeth Fframweithiau
- Cynorthwyo gyda chyflenwi twf sylweddol o ran aelodau a gwariant drwy'r Fframwaith.
- Marchnata a chodi ymwybyddiaeth o’r fframwaith led Cymru
- Adnabod a chyflenwi cyfleoedd gwaith pellach gydag aelodau, yn benodol, isgontractwyr a gwaith adeiladu newydd.

- Chwarae rhan hanfodol o ran cyflawni cynllun 12 mis ar gyfer twf a thargedau.
- Adnabod meysydd ar gyfer cydweithio pellach rhwng aelodau.
- Mabwysiadu dull rhagweithiol ar anghenion deunyddiau tymor hir yr aelodau, gan ganolbwyntio ar ddatgarboneiddio adeiladu yn gyfan gwbl.

Ni all unrhyw swydd ddisgrifiad ymdrin â bob dim a all godi o fewn y rôl ar adegau amrywiol. Er mwyn cynnal gwasanaeth effeithiol, efallai y bydd gofyn i chi gyflawni unrhyw dasgau rhesymol eraill, sy'n debyg yn fras i'r rhai yn y ddogfen hon fel y'u pennir gan eich Cyfarwyddwr.

| MANYLEB PERSON | HANFODOL/ DYMUNOL |
|---|---|
| **CYMWYSTERAU** | |
| Cymhwyster rheoli proffesiynol (lefel gradd neu gyfatebol) neu'n gallu dangos profiad sylweddol o reoli | H |
| **PROFIAD, GWYBODAETH A SGILIAU** | |
| Gwybodaeth a phrofiad o gaffael deunyddiau ar raddfa fawr. | H |
| Gwybodaeth, profiad a dealltwriaeth am gaffael yn y sector cyhoeddus. | H |
| Gwybodaeth dechnegol o gyflenwad deunyddiau drwy gytundebau fframwaith y sector cyhoeddus. | D |
| Hanes llwyddiannus o fod wedi rheoli prosiect | H |
| Profiad o feithrin perthnasau gwaith newydd ar lefel uwch sydd wedi arwain at gyfleoedd busnes newydd | H |
| Profiad o yrru gwelliannau mewn perfformiad gan weithredu o fewn diwylliant o reoli perfformiad. | H |
| Lleiafswm o 2 flynedd o brofiad yn darparu gwasanaethau tebyg | H |
| Profiad o dyfu'r aelodaeth a gwariant ar gytundebau fframwaith y sector cyhoeddus. | D |
| Hanes wedi'i brofi o uchafu buddiannau gwerth cymdeithasol mewn contractau | D |
| Gallu i rannu arbenigedd technegol, perfformiad a chyngor o ran cyflenwi deunyddiau | H |
| Arddangos sgiliau arwain sy'n gynhwysol ac yn annog eraill | H |
| Gallu wedi'i brofi i negodi pryniannau deunyddiau ar raddfa fawr | H |
| Uchelgeisiol a hyblyg ac yn barod i groesawu heriau newydd | H |
| Gallu i baratoi a chyflwyno data ystadegol a thechnegol cymhleth | H |

| | |
|---|---|
| Sgiliau cyflwyno cryf a'r gallu i gyfathrebu gwybodaeth i ystod eang o rhanddeiliaid gan ddefnyddio dulliau amrywiol | H |
| Yn deall TG yn llawn ac yn gallu defnyddio pecynnau Microsoft yn llawn | H |
| Ymrwymiad ac yn cyfrannu at y cynllun cyflawni gwasanaeth ac amcanion | H |
| Gallu dangos eich bod yn gallu gwneud penderfyniadau | H |
| Trwydded gyrru lawn, glân a dilys gyda cherbyd eich hun. | H |
| Y gallu i ddefnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir yn y Gymraeg a’r Saesneg o ystod eang o ffynonellau | D |